


Blood cancer UK

# Yr hyn sydd ei angen: Eich llais

Canllaw i siarad am ganser y gwaed yn ystod etholiadau Senedd Cymru yn 2026




# Cefndir

Ddydd Iau 7 Mai bydd pleidleiswyr yng Nghymru yn pleidleisio i ethol Aelodau'r Senedd (AS). Unwaith y bydd yr etholiad yn cael ei alw bydd Senedd Cymru yn cael ei ddiddymu a bydd yr ymgeiswyr sy'n cynrychioli gwahanol bleidiau gwleidyddol yn dechrau ymgyrchu i gael eu hethol (neu eu hailethol) i un o'r 96 o seddau a fydd ar gael i gynrychioli pob rhan o Gymru. Bydd yr etholiad hwn yn gyfle i sicrhau lle blaenllaw i ganser y gwaed ar yr agenda wleidyddol yng Nghymru.

Rydym eisoes wedi cychwyn gwneud hyn drwy gyhoeddi maniffesto - ond mae arnom angen eich cymorth chi nawr.

**Ysgrifennu at eich ymgeiswyr**

**Ymuno â Grŵp Polisi Blood Cancer UK**

**Ein maniffesto**

# Canser y gwaed

Mae tua
**1,400**
**o bobl**
yn cael diagnosis bob blwyddyn yng Nghymru

Mae
**58%**
**o'r holl farwolaethau o ganser y gwaed**
yn cael eu hachosi gan y canserau mwyaf anodd eu trin

Mae canser y gwaed yn gymhleth ac mae
**100 a mwy o wahanol fathau**

Mae tua
**11,600**
**o bobl**
yn byw gyda chanser y gwaed neu mewn cyfnod o ollyngdod ar hyn o bryd o ganser y gwaed yng Nghymru

Fel rheol caiff canserau'r gwaed eu rhannu'n dri phrif grŵp sef **lewcemia**, **lymffoma** a **myeloma** ond mae hefyd **neoplasmau myeloproliferative** (MPNs) **a syndrom myelodysplastig** (MDS)

Canser y gwaed yw'r **pumed canser mwyaf cyffredin** yng Nghymru a'r **trydydd canser sy'n lladd y nifer mwyaf o bobl.**

**Mae o leiaf 600 o bobl yng Nghymru**
yn marw o ganser y gwaed bob blwyddyn

## Blood Cancer UK

Rydym yn gymuned sy'n ymroddedig i drechu canser y gwaed trwy ariannu ymchwil, cefnogi'r rhai yr effeithir arnynt ac ymgyrchu dros newid. Ers 1960, rydym wedi buddsoddi dros £500 miliwn mewn ymchwil ynghylch canser y gwaed, gan anelu at drawsnewid triniaethau ac achub bywydau.

# Crynodeb o’r Maniffesto

Rydym yn gwybod beth sydd ei angen i guro canser y gwaed yng Nghymru, felly rydym yn gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru gymryd y camau canlynol:

## Cyflwyno strategaeth canser hirdymor ar gyfer Cymru dan oruchwyliaeth arweinyddiaeth sy’n cynnwys arbenigwyr canser y gwaed

- Erbyn hyn, Cymru yw’r unig wlad yn y DU nad oes ganddi strategaeth hirdymor ar gyfer canser.
- Yn rhy aml mae mentrau cenedlaethol ar gyfer canser yn canolbwyntio ar ganserau tiwmor solet.

## Dod â’r argyfwng presennol sy’n parhau i fynd o ddrwg i waeth i ben o fewn gweithlu canser y gwaed

- Mae 60% o haematolegwyr ymgynghorol a 38.5% o Nyrsys Clinigol Arbenigol ym maes haematoleg yng Nghymru ar fin ymddeol.
- Mae’r sefyllfa yn waeth mewn ardaloedd gwledig a mwy anghysbell, ac mewn rhai ardaloedd nid oes unrhyw haematolegwyr ymgynghorol newydd wedi’u penodi ers cryn amser.

## Cynnal adolygiad brys o ddata am ganser y gwaed

- Nid oes cysondeb o ran y modd y caiff data am ganser y gwaed ei gofnodi, ei gategoreiddio a’i ddadansoddi.
- Nid oes data am ethnigrwydd yng Nghymru ond ar gael ar gyfer 42% o gofnodion am lymffoma nad yw’n Hodgkins yng Nghymru, o’i gymharu ag 87% yn Lloegr. Mae bylchau o ran data demograffig yng Nghymru yn ei gwneud hi’n anodd pennu anghydraddoldebau o ran iechyd.

## Cywiro bylchau mewn data am ddiagnosis canser y gwaed

- Os nad yw pobl sy’n cael diagnosis o ganser y gwaed yng Nghymru yn cael eu cyfrif yn gywir mae’n anochel nad yw’r gofal a gynigir i gleifion yn ddigonol.

## Sicrhau bod mwy o bobl â chanser y gwaed yn cael diagnosis yn gynharach, gan gynnwys canserau nad oes cam wedi’i bennu ar eu cyfer

- Bu’n rhaid i 29% o bobl yng Nghymru y mae canser y gwaed arnynt ymweld â’u Meddyg Teulu o leiaf dair gwaith cyn iddynt gael eu cyfeirio at arbenigwr
- Mae targedau’r Llywodraeth o ran rhoi diagnosis i ganser yn seiliedig ar gamau. Nid yw’r rhain yn cynnwys canserau nad oes cam wedi’i bennu ar eu cyfer, fel y rhan fwyaf o ganserau’r gwaed, a gallent gael eu diystyru mewn ymdrechion o ran sicrhau diagnosis cynnar.

## Creu partneriaeth rhwng Byrddau Iechyd ac elusennau er mwyn cynnig gwell cymorthi bobl ar ôl iddynt gael diagnosis o ganser y gwaed

- Nid oedd 58% o bobl yr oedd canser y gwaed arnynt yn ymwybodol o’r cymorth emosiynol a’r cymorth ymarferol sydd ar gael iddynt ar ôl iddynt gael diagnosis.
- Mae Blood Cancer UK yn barod i gefnogi pobl ar ôl iddynt gael diagnosis gyda’i Wasanaeth Cyfeirio, ond mae angen i’r GIG ei fabwysiadu.

## Cyflwyno dull o gynnal gwaith ymchwil yng Nghymru lle gall ymchwil academaidd ac ymchwil masnachol ffynnu, gyda gwell mynediad at driniaethau ar gyfer canser y gwaed

- Yng Nghymru, cred 59% o’r bobl y mae canser y gwaed wedi effeithio arnynt y dylai cynyddu’r gwaith ymchwil i driniaethau blaengar fod yn flaenoriaeth ym maes polisi canser at y dyfodol.
- Dim ond 26% o’r bobl yng Nghymru y mae canser y gwaed arnynt sydd wedi trafod cyfleoedd ymchwil ar ôl eu diagnosis.
- Golyga lleoliad canolfannau triniaeth yng Nghymru fod yn rhaid i lawer o bobl deithio i gael triniaeth ganser y gwaed, ond ni all pawb fforddio hyn.

# Sut allwch chi helpu?

## Mae angen i ymgeiswyr etholiadol glywed am gynnwys ein maniffesto gan eu pleidleiswyr – gan gynnwys chi.

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i'ch helpu i siarad am ganser y gwaed gyda'ch ymgeiswyr lleol yn ystod yr etholiad. Yma fe welwch adnoddau amrywiol gan gynnwys templedi e-bost i'w hanfon at ymgeiswyr, manylion am sut i ddod o hyd i'ch ymgeiswyr a banc o gwestiynau i'w gofyn i ymgeiswyr os ydyn nhw'n dod i'ch drws.



# Sut i siarad â'ch ymgeiswyr lleol am ganser y gwaed

Gwyddom y gall drafod ag ymgeiswyr gwleidyddol deimlo'n frawychus, ond ni waeth faint neu ychydig y gallwch ei wneud, mae unrhyw drafod yn dal i fod yn werth chweil. Dyma rai awgrymiadau gwych ar gyfer cysylltu ag ymgeiswyr yn y cyfnod cyn-etholiadol, a thempled e-bost a allai helpu wrth i chi gysylltu â nhw.

## 1 Dod i wybod pwy yw eich ymgeiswyr

Defnyddiwch ein offeryn e-weithredu i ddod o hyd i'ch ymgeiswyr lleol ac ysgrifennu atynt. Mae'r offeryn yn cynnwys templed e-bost rhagarweiniol rydyn ni wedi'i baratoi ar eich cyfer y gallwch ei ddiweddaru i gynnwys eich stori bersonol eich hun. Gallwch hefyd ddod o hyd i'ch ymgeiswyr lleol ar wefannau'r pleidiau gwleidyddol, ar y cyfryngau cymdeithasol neu ar daflenni sy'n dod trwy eich drws.

## 2 Rhannu eich stori a'i chadw'n lleol

Ni fydd llawer o ymgeiswyr erioed wedi cwrdd ag unrhyw un â chanser y gwaed ac ni fyddant yn ymwybodol o'r effaith. Mae'r etholiad hwn yn gyfle i'w cyflwyno i ganser y gwaed. Gall rhannu eich stori fod yn ffordd bwerus o ymgysylltu ag ymgeiswyr - yn enwedig os ydych chi wedi wynebu heriau gyda'ch diagnosis, triniaeth neu ofal yn yr etholaeth maen nhw am ei chynrychioli. Yn ein templed e-bost, mae lle i chi rannu eich stori. Chi piau'r dewis o ran gwneud hyn ai peidio.

## 3 Cyfarfod â'ch ymgeiswyr

Os ydych chi'n teimlo'n gyfforddus yn siarad â'ch ymgeiswyr wyneb yn wyneb, gallwch ofyn iddynt gwrdd â chi. Efallai y bydd ymgeiswyr a'u hymgyrchwyr yn curo ar eich drws i ofyn i chi a fyddwch chi'n pleidleisio yn yr etholiad a pha faterion sy'n bwysig i chi. Mae hwn yn gyfle i rannu eich pryderon, gan gynnwys am sut y bydd eu plaid yn mynd i'r afael â heriau canser y gwaed yng Nghymru os byddant yn ffurfio Llywodraeth nesaf Cymru.

Rydym wedi paratoi rhai cwestiynau i chi, gan ein bod yn gwybod y gall fod yn anodd meddwl am gwestiynau yn y fan a'r lle. Gallwch hefyd gwrdd ag ymgeiswyr trwy ofyn am gyfarfod, neu efallai y byddant yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus lle mae aelodau o wahanol bleidiau gwleidyddol yn ymateb i gwestiynau gan drigolion lleol.

## 4 Rhoi'r newyddion diweddaraf i ni!

Mae'n ddefnyddiol i ni gael cofnod o ba ymgeiswyr y mae etholwyr wedi siarad â nhw am ganser y gwaed yn y cyfnod cyn-etholiadol. Os cânt eu hethol, bydd hyn yn ein helpu i adeiladu ein sylfaen gefnogaeth yn y Senedd. Yn yr un modd, os ydych chi'n cael ymateb ysgrifenedig yn ôl gan un o'ch ymgeiswyr, byddem wrth ein bodd yn ei weld. Rhowch yr wybodaeth ddiweddaraf i dîm Polisi a Dylanwadu Blood Cancer UK drwy gynnwys **policy@bloodcancer.org.uk** yn unrhyw negeseuon e-bost rydych chi'n eu hanfon neu gallech anfon ymatebion rydych wedi'u derbyn atom.

## 5 Cofiwch barhau'n ddiduedd

Mae angen i elusennau aros yn niwtral mewn ymgyrchoedd etholiadol, felly mae'n bwysig i chi gofio pwysigrwydd bod yn wleidyddol ddiduedd os ydych yn gwneud unrhyw ymgyrchu ar ran Blood Cancer UK.

**I ddefnyddio ein hofferyn e-weithredu i anfon e-bost at eich ymgeiswyr**




# Banc Cwestiynau

Rydym wedi paratoi rhai cwestiynau y gallech o bosibl eu gofyn i ymgeiswyr. Nid oes angen i chi ofyn yr holl gwestiynau hyn ac mae croeso i chi feddwl am eich cwestiynau eich hun yn seiliedig ar eich profiad, gan gynnwys gyda'ch GIG lleol.


Canser y gwaed, sy'n cynnwys lewcemia, lymffoma a myeloma, yw'r pumed canser mwyaf cyffredin a'r trydydd canser sy'n lladd y nifer mwyaf o bobl yng Nghymru, ond mae'n aml yn cael ei anwybyddu mewn polisïau.

**1 Os cewch eich ethol, a wnewch chi ymrwymo i gyfarfod â Blood Cancer UK i wybod sut y gallwch ddefnyddio eich llais yn y Senedd i helpu gyflawni dyfodol lle na fydd unrhyw un yn marw o ganser y gwaed na'i driniaethau?**



Nid yw pob meddyginiaeth ar gyfer canser y gwaed a gymeradwywyd i'w defnyddio gan reoleiddwyr ar gael i gleifion canser y gwaed yng Nghymru.

**2 Sut byddwch chi'n gwella mynediad at driniaethau newydd arloesol i gleifion ledled y wlad?**



Yng Nghymru, dim ond 26% o bobl â chanser y gwaed a drafododd gyfleoedd o ran treialon clinigol ar ôl cael diagnosis.


**3 Os cewch eich ethol, sut bydd eich plaid yn sicrhau bod mwy o dreialon ar gael i gleifion canser y gwaed?**




Ar hyn o bryd mae 60% o haematolegwyr ymgynghorol yng Nghymru, sy'n gyfrifol am ofal canser y gwaed ond hefyd am bob trallwysiad gwaed yng Nghymru, ar fin ymddeol.

**4 Sut bydd eich plaid yn mynd i'r afael â'r argyfwng presennol yng Nghymru o ran y gweithlu haematoleg?**

Oherwydd ansawdd data gwael, ni allwn ddweud yn hyderus ar hyn o bryd faint o bobl yng Nghymru sydd â chanser y gwaed.



**5 Sut bydd eich plaid yn cynyddu hyder mewn data ynghylch canser y gwaed ac yn sicrhau bod pobl â chanser y gwaed a'r gweithlu canser y gwaed yng Nghymru yn cael eu cyfran deg o fuddsoddiad?**



Mae symptomau canser y gwaed yn aml yn amwys ac felly'n anoddach i'w hadnabod, a bu'n rhaid i 29% o bobl â chanser y gwaed yng Nghymru fynd at eu meddyg teulu o leiaf dair gwaith cyn cael eu cyfeirio at arbenigwr.

**6 Os cewch eich ethol, sut y bydd eich plaid yn anelu at wella'r profiad o gael diagnosis i bobl â chanser y gwaed yng Nghymru?**

# Yr etholiadau

## Beth y mae Senedd Cymru yn gyfrifol amdano?


Mae iechyd yn fater allweddol yn etholiadau'r Senedd yn 2026 oherwydd ei fod wedi'i ddatganoli'n lwyr, sy'n golygu mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am sut mae'r GIG yng Nghymru yn cael ei ariannu a'i ddarparu. I bobl sy'n byw gyda chanser y gwaed, mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar ddiagnosis, ar fynediad at driniaethau neu dreialon clinigol, a'r cymorth a'r gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt.

## Newidiadau i'r Senedd yn 2026

Mae'r etholiad hwn yn nodi newidiadau mawr yn y Senedd, gyda 36 aelod ychwanegol yn cael eu hethol i'r Senedd o dan system bleidleisio newydd. Golyga hyn y bydd cyfanswm o 96 aelod yn cael eu hethol y tro hwn. Gallai hyn olygu bod mwy o Aelodau ar gael i hyrwyddo achos canser y gwaed yn y Senedd. Mae yna etholaethau newydd hefyd, gyda 16 etholaeth yn ethol chwe Aelod o'r Senedd. Am y tro cyntaf, gall pawb 16 oed a hŷn bleidleisio. **Mwy yma.**

## Sut allai bleidleisio?

I ddod o hyd i'ch etholaeth a'ch gorsaf bleidleisio, i gofrestru i bleidleisio, gan gynnwys drwy'r post neu drwy ddirprwy, ac i ddysgu sut y gallai eich papur pleidleisio edrych yn wahanol i bapurau pleidleisio etholiadau blaenorol y Senedd y gallech fod wedi pleidleisio ynddynt, **'ewch i'r dudalen hon.**





# Dulliau eraill o gefnogi ein gwaith

## Ymuno â Grwp Polisi Blood Cancer UK

Mae Grŵp Polisi Blood Cancer UK yn rhan o'n Rhwydwaith Cyfranogiad ac mae'n cynnwys pobl o bob cwr o'r DU sydd eisiau helpu i lunio ac adolygu ein gwaith Polisi a Dylanwadu neu sydd eisiau clywed y newyddion diweddaraf yn rheolaidd am y gwaith rydym yn ei wneud. **Cofrestrwch yma** i gymryd rhan nawr ac ar ôl yr etholiad. Cysylltwch â **policy@bloodcancer.org.uk** os oes gennych unrhyw gwestiynau.

## Hyrwyddo ein neges

Bydd llawer o ymgeiswyr yn amlwg iawn ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfnod yr etholiad. Gallech ailrannu negeseuon gan Blood Cancer UK gyda'ch cymuned leol.

Blood Cancer UK yw enw masnachu Blood Cancer UK Research. Cwmni cyfyngedig gan warant. 738089 (cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr). Elusen gofrestredig 216032 (Cymru a Lloegr) SC087529 (Yr Alban)
2026 – 26030a/0126